


## Llogi "Tramper"

Os nad oes gennych sgwter eich hun sy'n addas ar gyfer y llwybrau mae sgwter symudedd "Tramper" oddi-ar-y-ffordd ar gael i'w logi o'r ganolfan ymwelwyr. Rhaid archebu ymlaen llaw yn unig ac mae telerau ac amodau yn weithredol. Ewch i'n gwefan neu cysylltwch â chanolfan ymwelwyr Coed y Brenin i gael rhagor o fanylion.

Rydym yn un o safleoedd partner Countryside Mobility sydd wedi ein helpu i sefydlu ein cynllun Tramper.

## "Tramper" Hire

If you don't have your own scooter suitable for use on the trails then a "Tramper" off-road mobility scooter is available to hire from the visitor centre - advanced booking only, terms and conditions apply.
Please visit our website or contact Coed y Brenin visitor centre for further details.

We are a partner site of Countryside Mobility who helped us to set up our Tramper scheme.

Er mwyn cael manylion mannau eraill lle ceir Tramper, ewch i:
**countrysidemobility.org**

For details of other Tramper locations please visit:
**countrysidemobility.org**

countryside mobility




**Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin**
**Coed y Brenin Visitor Centre**
**Dolgefeiliau, Dolgellau,**
**LL40 2HZ**
**01341 440747**

**0300 065 3000**
**cyfoethnaturiol.cymru/coedybrenin**
**naturalresources.wales/coedybrenin**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, gadewch inni wybod:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

If you would like this publication in a different format, please let us know:
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
0300 065 3000

NATU067 03/20

FSC www.fsc.org FSC® C115912
Arwydd o goedwigaeth gyfrifol
The mark of responsible forestry

Mae coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®

Natural Resources Wales forests have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%

Printed on 100% recycled paper

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llwybrau Tramper
Tramper Trails

# Coed y Brenin

// Archwiliwch lwybrau'r goedwig ar sgwter symudedd oddi-ar-y-ffordd

Explore the forest trails on an off-road mobility scooter



cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales

Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park

Cymru Wales




## Archwiliwch lwybrau'r goedwig ar sgwter symudedd oddi-ar-y-ffordd


Mae'r ddau lwybr hyn sydd wedi eu harwyddo yn caniatáu i ymwelwyr llai abl fwynhau'r goedwig a chael diwrnod allan gyda gweddill y teulu ar sgwteri symudedd oddi-ar-y-ffordd. Pa un ai ydych yn dymuno cael taith fer i lawr i'r ardal bicnic ar lan yr afon neu deithio i fyny'r bryn i'r olygfan, mae rhywbeth at ddant pawb yma.

## Explore the forest on an off-road mobility scooter

These two waymarked trails allow less able visitors to enjoy the forest and a day out with the rest of the family using off-road mobility scooters. Whether you want a short journey down to the riverside picnic area or journey up the hill to the viewpoint, there's something to suit all tastes.

**Cofiwch y gallech ddod ar draws cerddwyr, cŵn, beiciau mynydd, ceffylau neu gerbydau unrhyw adeg.**

**Please be aware that you may come across walkers, dogs, mountain bikes, horses or vehicles at any time.**




**ARGYFWNG AR Y LLWYBRAU**

- Ffoniwch 999 neu'r ganolfan 01341 440747.
- Dywedwch ebw'r llwybr rydych arno
- Mae signal ffonau symudol yn ysbeidiol ar hyd y llwybrau
- Y Ganolfan Ymwelwyr, Parc Coedwig Coed y Brenin, LL40 2HZ.

**EMERGENCY OUT ON THE TRAILS**

- Phone 999 or the centre 01341 440747
- Tell them the name of the trail you are on
- Mobile coverage is patchy
- Coed y Brenin Forest Park, Visitor Centre, LL40 2HZ.


Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019741.

This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office.
© Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019741.


| | |
|---|---|
| ffordd goedwig / forest road | parcio / parking |
| gwybodaeth / information | lle picnic / picnic area |
| giatiau / gates | toiledau hygyrch / accessible toilets |
| mainc / bench | caffi / café |
| cyfleusterau hygyrch / accessible facilities | maes chwarae / play area |
| gwylfan / viewpoint | graddiant / gradient |

## Afon Eden

Hawdd | Easy
Pellter | Distance: 1m | 1.4km
Amser | Time: ¾ awr | ¾ hour
Dringo | Climb: 105tr/ft | 35m

**CYCHWYN: Canolfan Ymwelwyr**

**Dilynwch y llwybr hygyrch i safle picnic glan yr afon, lle mae Afon Eden yn byrlymu dros y creigiau.**


Mae'r daith hon yn cychwyn ar lwybr ag arwyneb da sy'n 2m o led, sy'n arwain i lawr at afon ar raddiant o ddim mwy na 10%/1 mewn 10, a cheir meinciau gorffwys bob 100m. Wrth ichi adael yr afon, rydych chi'n dechrau dringo eto at ffordd y goedwig ar raddiant hawdd o ddim mwy nag 16%/1 mewn 6, ceir meinciau i orffwys bob 150m o leiaf.

**START: Visitor Centre**

**Follow the accessible trail to the riverside picnic site where the Afon Eden rushes over rocks.**

This trail starts on a well-surfaced 2m-wide route down to the river, with a gradient of no more than 10%/1 in 10, with resting benches every 100m. As you leave the river, you start to climb back to the forest road on an easy gradient of no more than 16%/1 in 6, with resting benches at least every 150m.

**PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE**




## Cefndeuddwr

Hawdd | Easy
Pellter | Distance: ¾m | 1.3km
Amser | Time: ¾ awr | ¾ hour
Dringo | Climb: 197tr/ft | 55m

**CYCHWYN: Canolfan Ymwelwyr**

**Rhowch gynnig ar y llwybr hwn i Gefndeuddwr sy'n addas i'r teulu cyfan. Oddi yma, mwynhewch y golygfeydd panoramig o'r Garn a'r Rhinogydd.**

Dyma lwybr ag arwyneb da sy'n 1.5m o led. Byddwch yn dringo'r bryn yn raddol ar raddiant cyfartalog o 12%/1 mewn 8. Ceir meinciau i orffwys bob 150m o leiaf.

**START: Visitor Centre**

**Try this route for all the family to Cefndeuddwr. From there take in the panoramic views to Y Garn and the Rhinogydd Mountains.**

This is a well surfaced 1.5m-wide trail. You will gradually climb the hillside with an average gradient of 12%/1 in 8. There are resting benches at least every 150m.

**PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE**

